# Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | Rheoliadau Perfformiadau Plant - Ymgynghoriad |
| **Rhif SF / LF cysylltiedig** (os yw'n berthnasol) | LF/HL/0261/14 |
| **Enw'r gangen:** | Y Gangen Dysgwyr Amrywiol a Diogelu |
| **Adran:** | Yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) |
| **Dyddiad:** | Gorffennaf 2014 |

# Chwe Cham at Sylw Dyledus




## Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

***Disgrifiad byr o'r darn o waith***

Bwriad y darn hwn o waith yw ymgynghori ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau Plant (Perfformiadau) 1968. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phlant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau y mae adran 37 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 yn berthnasol iddynt. Dan adran 37, ar gyfer y mwyafrif o berfformiadau rhaid cael trwydded oddi wrth yr awdurdod lleol priodol: ond nid oes angen trwydded ar gyfer rhai perfformiadau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r terfynau, a osodir yn y rheoliadau, ar yr adegau y caiff plant gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael. Ar hyn o bryd ceir nifer o gyfyngiadau ar yr adegau y caiff plant berfformio, sy'n gwahaniaethu rhwng perfformiadau sy'n cael eu darlledu a rhai nad ydynt yn cael eu darlledu. Barn Llywodraeth Cymru yw y dylid parhau i gael rheolau'n ymwneud â phryd y caiff plant berfformio, er mwyn diogelu eu hiechyd, eu lles a'u haddysg. Ond mae'r rheolau'n gymhleth ac yn gaeth ar hyn o bryd, ac nid ydynt bob amser er budd gorau'r plant. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig codi'r cyfyngiadau diangen gan gadw'r rhagofalon angenrheidiol. Rydym yn dymuno clywed barn ar y fframwaith arfaethedig newydd. Mae hwn yn pennu'r amgylchiadau lle caniateir i blant gymryd rhan mewn perfformiadau, yn ôl eu hoedran, y seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael a chynigion i ganiatáu i hebryngwr sydd wedi'i gymeradwyo gan awdurdod lleol wneud penderfyniadau cyfyngedig i amrywio'r rheolau hyn, os yw'n credu ei fod er budd y plentyn.

***Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?***
Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 1 Awst 2014 ac yn cau ar 31 Hydref 2014.

***Pwy yw'r rhai y bwriedir iddynt elwa?***
Plant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau.

***A yw'n debygol y bydd y darn o waith yn effeithio ar blant?***
Ydy. Bwriedir cael effaith gadarnhaol drwy gyflwyno trefniadau tecach a mwy cyson wrth drwyddedu i adlewyrchu trefniadau mwy cyfoes yng nghymdeithas yr oes. Sail resymegol y newidiadau yw ceisio cynyddu cyfleoedd i blant gael cymryd rhan ym mhob math o berfformiad heb leihau'r warchodaeth a ddarperir gan y fframwaith cyfredol ar gyfer trwyddedu perfformiadau plant, a sicrhau'r lefel gyfredol o ddiogelu.

***A fydd y gwaith yn cael effaith ar grŵp penodol o blant, os felly, wnewch chi ddisgrifio'r grŵp yr effeithir arnynt?***
Bydd, ar blant o oedran ysgol gorfodol, sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Rydym ni'n credu y bydd y cynigion hyn yn sicrhau effaith gadarnhaol ar blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau. Ar y cyfan mae'r fframwaith cyfreithiol cyfredol wedi bod yn effeithiol yn ei ddiben sef sicrhau bod plant sy'n berfformwyr yn cael eu diogelu. Serch hynny, bu'n weithredol ers y 1960au, ac mae rhai agweddau bellach wedi dyddio. Yn 2012, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y cyd â'r Adran Addysg ar gynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Dynododd yr ymgynghoriad rai rhwystrau sy'n gallu atal plant rhag manteisio ar gyfleoedd i berfformio, ac sydd â diben cyfyngedig. Amlygwyd y problemau hyn pan basiwyd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn Senedd y DU ac mae cyfyngiadau ar y mathau o berfformiadau y gellid trwyddedu plant dan 14 i gymryd rhan ynddynt wedi'u dileu yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru nawr yn cynnig cymryd camau pellach i wella cyfleoedd i blant sy'n dymuno perfformio drwy wneud y canlynol:

- dileu'r gofyniad yn y rheoliadau i ddarparu tystysgrif feddygol cyn y gellir rhoi trwydded. Diben y dystysgrif yw profi bod y plentyn yn ffit i berfformio, ond mae awdurdodau lleol yn dweud wrthym na ddylai hyn fod yn angenrheidiol yn y mwyafrif o achosion, a bod rhieni'n aml yn gorfod talu eu meddyg teulu i ddarparu tystysgrif heb fod rheswm da am hynny. Byddai dileu'r gofyniad hwn yn cael gwared ar rwystr ariannol i blant sydd am gymryd rhan mewn perfformiadau.

- cynorthwyo awdurdodau lleol ac eraill i ddatblygu canllawiau ymarfer gorau. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Addysg a phartneriaid allweddol ar y canllawiau hyn a disgwylir y byddant yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn sicrhau trefniadau mwy cyson a thecach i blant ar draws Cymru.

- dileu'r cyfyngiadau diangen ar y gwahanol fathau o berfformiad y caiff plentyn gymryd rhan ynddynt ar un diwrnod ac anghysonderau rhwng y rheolau ar gyfer perfformiadau nad ydynt yn cael eu recordio neu eu darlledu a'r rhai sydd. Nid ydym ni'n gweld unrhyw gyfiawnhad dros y cyfyngiadau a'r gwahaniaethau hyn, cyhyd â bod y mesurau diogelu cyffredinol sy'n ymwneud â'r nifer o oriau a gaiff eu treulio'n perfformio ac ar ba amser o'r dydd (sef yr hyn sydd yn yr ymgynghoriad hwn) mewn grym. Byddai

dileu'r rhwystr hwn yn golygu bod plant yn gallu cymryd rhan mewn perfformiadau heb unrhyw gyfyngiadau trafferthus a diangen.

***Oes angen ichi gyd-drafod â phlant a phobl ifanc a/neu rhanddeiliaid i geisio eu barn gan ddefnyddio dulliau ymgynghori neu gyfranogi?***
Mae gweithdy cyd-drafod gydag aelodau o Rwydwaith Cymru Plant mewn Adloniant a Chyflogaeth ar y gweill i gasglu barn ar y fframwaith newydd arfaethedig.

***Oes angen ichi baratoi fersiynau addas i blant o gynigion/ymgyngoriadau?***
Gan fod yr ymgynghoriad yn fyr ac yn gryno a bod y cynigion a gynhwysir ynddo yn cael eu hesbonio'n glir yn yr Atodiad i'r ymgynghoriad, nid ydym yn credu y byddai fersiwn addas i blant yn cynnig unrhyw fantais yn yr achos hwn.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Mae’r erthyglau isod i gyd yn berthnasol i waith yn ymwneud â’r Rheoliadau Perfformiadau Plant:-

**Erthygl 1 – Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn**
Bydd y cynigion yn cynnig system deg i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy’n briodol i’w hoedran, fel yr amlinellir yn Atodiad yr ymgynghoriad.

**Erthygl 3 Dylai pob sefydliad sy’n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.**
Mae’r fframwaith cyfreithiol cyfredol wedi bod yn effeithiol yn diogelu ar y cyfan, serch hynny, bu’n weithredol ers y 1960au, ac mae felly rhai agweddau bellach wedi dyddio ac mae angen ei ddiweddaru i gyd-fynd â chyd-destun modern. Barn Llywodraeth Cymru yw y dylid parhau i gael rheolau’n ymwneud â phryd y caiff plant berfformio, er mwyn diogelu eu hiechyd, eu lles a’u haddysg. Ond mae’r rheolau’n gymhleth ac yn gaeth ar hyn o bryd, ac nid ydynt bob amser er budd gorau’r plant. Mae Llywodraeth Cymru’n cynnig codi’r cyfyngiadau diangen gan gadw’r rhagofalon angenrheidiol. Mae’r fframwaith newydd arfaethedig yn pennu’r amgylchiadau lle caniateir i blant gymryd rhan mewn perfformiadau, yn ôl eu hoedran, y seibiannau y mae’n rhaid iddynt eu cael a chynigion i ganiatáu i hebryngwr sydd wedi’i gymeradwyo gan awdurdod lleol wneud penderfyniadau cyfyngedig i amrywio’r rheolau hyn, os yw’n credu ei fod er budd y plentyn. Byddai diweddaru’r fframwaith cyfreithiol cyfredol i’r hyn a gynigir yn dileu rhwystrau a adroddir yn fynych gan awdurdodau lleol, gan ddileu biwrocratiaeth diangen, a sicrhau dull symlach o weithredu heb gyfaddawdu’r elfen o ddiogelu plant sy’n perfformio.

**Erthygl 5 - Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio’u hawliau’n briodol.**
Mae’n ofynnol i blant sy’n perfformio dan drwydded gael cwmni hebryngwr. Yr hebryngwr sy’n gyfrifol am edrych ar ôl plant yn ystod yr holl ymarferion a’r perfformiadau. Ar hyn o bryd caiff yr hebryngwr ganiatáu i blentyn berfformio ar y llwyfan am hyd at 30 munud yn hirach na’r hyn a nodir yn y rheolau. Mae hyn yn gymwys i berfformiadau darlledu trwyddedig yn unig.

Er ei bod yn bwysig cael fframwaith i sicrhau nad yw plant yn cael eu gorweithio a bod digon o amser yn cael ei neilltuo iddynt orffwys a chysgu, y ffaith yw bod sioeau byw ac amserlenni ffilmio yn gallu rhedeg yn hwyr o dro i dro. Rydym ni’n cynnig y dylai hebryngwyr allu gwneud penderfyniadau am bob math o berfformiad, os yw’n glir nad yw hyn yn niweidiol i iechyd a lles y plentyn. Rydym ni hefyd yn ystyried a ddylent gael cytuno y caiff sesiwn ddod i ben hyd at awr yn hwyrach, yn hytrach na 30 munud.

**Erthygl 19 – Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a’u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy’n edrych ar eu hôl**
Rydym ni’n cynnig newid yr ystod gyfredol o reolau sy’n ymwneud â phryd y caiff plant berfformio a’r seibiannau y mae’n rhaid iddynt eu cael o fewn fframwaith symlach. Yr egwyddorion canlynol sydd wedi llywio’r fframwaith hwn:

1. dylai'r un cyfyngiadau fod yn gymwys, p'un ai yw'r perfformiadau'n cael eu darlledu ai peidio;
2. lle ceir cyfyngiadau gwahanol ar hyn o bryd yn y perfformiadau sy'n cael eu darlledu a'r rhai nad ydynt yn cael eu darlledu, yn gyffredinol y lleiaf cyfyngol a'r symlaf o'r ddau yw'r rhai y dylid eu mabwysiadu; ar yr amod nad yw hyn yn cyfaddawdu'r modd y caiff plant sy'n perfformio eu diogelu.
3. dylid dileu neu leihau unrhyw gyfyngiadau eraill os yw'n amlwg nad oes unrhyw fudd iddynt o ran diogelu ;
4. dylai plant iau gael mesurau diogelu cryfach na phlant hŷn er mwyn gwarchod eu hiechyd a'u lles
5. ac yn bennaf oll, dylid cadw unrhyw rai o'r cyfyngiadau presennol sydd â diben clir o ran diogelu plant sy'n berfformwyr.

**Erthygl 28 – Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.**
Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cynhyrchydd wneud cais am drwydded oddi wrth awdurdod lleol y plentyn. Dim ond os yw'n fodlon na fydd addysg y plentyn yn dioddef, a bod y cynhyrchydd wedi gwneud trefniadau addas a digonol i ddiogelu'r plentyn y dylai'r awdurdod lleol roi trwydded perfformio i blentyn.

**Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill**
Canfu ymgynghoriad perfformiadau plant 2012 rai rhwystrau sy'n gallu atal plant rhag manteisio ar gyfleoedd i berfformio, ac sydd â diben cyfyngedig. Sail resymegol y newidiadau yw ceisio cynyddu cyfleoedd i blant gael cymryd rhan ym mhob math o berfformiad heb leihau'r warchodaeth a ddarperir gan y fframwaith cyfredol ar gyfer trwyddedu perfformiadau plant, a sicrhau'r lefel gyfredol o ddiogelu.

**Erthygl 31 – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau**

*Oriau y caiff plentyn fod mewn lleoliad perfformio*
Yn aml gall y cyfnod y bydd plentyn yn ei dreulio yn y theatr neu ar set ffilm fod yn hirach o lawer na'r amser y bydd yn ei dreulio'n perfformio. I ddiogelu iechyd a lles plant, ceir rheolau'n ymwneud â'r uchafswm o oriau y caiff plentyn fod mewn lleoliad perfformio. Ar hyn o bryd, ar gyfer perfformiadau ar wahân i rai sy'n cael eu darlledu neu eu recordio, caiff plentyn gymryd rhan mewn mwy nag un perfformiad neu ymarfer ar yr amod nad yw'n bresennol am dros 6 awr. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn y rheolau ar gyfer perfformiadau sy'n cael eu darlledu, felly cynigir ei ddileu. Rydym yn cynnig cydweddu'r rheolau sy'n gymwys i berfformiadau nad ydynt yn cael eu darlledu gyda'r rheini sy'n berthnasol ar hyn o bryd i ddarlledu, sy'n wahanol yn ôl oedran y plentyn.

*Seibiannau – hyd ac amlder*
Beth bynnag yw natur y perfformiad, mae angen seibiannau priodol ar blant drwy'r dydd i gael prydau bwyd a gorffwys. Mae'n bwysig fod plant yn cael y seibiannau a'r prydau sydd eu hangen arnynt. Rydym ni'n cynnig y dylai'r rheoliadau barhau i osod isafswm o ran

amlder a hyd seibiannau, yn ôl grŵp oedran.

Ar hyn o bryd rhaid i blant dros 5 oed gael seibiant o 1.5 awr rhwng perfformiadau byw. Os yw’r perfformiad yn un byr, dyweder deng munud, mae’r gofyniad am seibiant o 1.5 awr yn ymddangos yn anghymesur. Rydym ni o’r farn y dylid lleihau isafswm y seibiant ar gyfer perfformiadau sy’n llai nag 1 awr o hyd i 45 munud. Ar gyfer pob grŵp oedran, rydym ni’n cynnig na ddylai unrhyw seibiant fod yn llai na 15 munud (fel sy’n digwydd ar hyn o bryd) ond rydym ni’n ystyried a oes modd lleihau hyd seibiannau ar gyfer prydau bwyd o 1 awr o leiaf (fel sy’n digwydd ar hyn o bryd) i 45 munud.

**Erthygl 32 – Dylai’r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy’n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.**
Mae’n ofynnol i blant sy’n perfformio dan drwydded gael cwmni hebryngwr. Yr hebryngwr sy’n gyfrifol am edrych ar ôl plant yn ystod yr holl ymarferion a’r perfformiadau. Ar hyn o bryd caiff yr hebryngwr ganiatáu i blentyn berfformio ar y llwyfan am hyd at 30 munud yn hirach na’r hyn a nodir yn y rheolau. Mae hyn yn gymwys i berfformiadau darlledu trwyddedig yn unig. Er ei bod yn bwysig cael fframwaith i sicrhau nad yw plant yn cael eu gorweithio a bod digon o amser yn cael ei neilltuo iddynt orffwys a chysgu, y ffaith yw bod sioeau byw ac amserlenni ffilmio yn gallu rhedeg yn hwyr o dro i dro. Rydym ni’n cynnig y dylai hebryngwyr allu gwneud penderfyniadau am bob math o berfformiad, os yw’n glir nad yw hyn yn niweidiol i iechyd a lles y plentyn. Rydym ni hefyd yn ystyried a ddylent gael cytuno y caiff sesiwn ddod i ben hyd at awr yn hwyrach, yn hytrach na 30 munud.

Mae’n bwysig fod plant yn cael eu diogelu rhag cael eu gorweithio. Mae’r rheoliadau ar hyn o bryd yn pennu uchafsymiau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o berfformiad: caniateir uchafswm o 6 diwrnod yn olynol ar gyfer perfformiadau nad ydynt yn cael eu darlledu, ond yr uchafswm yw 5 diwrnod mewn 7 os caiff unrhyw rai o’r perfformiadau eu darlledu. Rydym ni’n cynnig pennu 6 diwrnod yn olynol fel uchafswm i bob math o berfformiad.

**Erthygl 34 – Dylai’r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol**
Nid yw Llywodraeth Cymru’n bwriadu cymryd unrhyw gamau a allai olygu llai o ddiogelu i blant pan fyddant yn cymryd rhan mewn perfformiadau, na diwygio’r fframwaith cyfreithiol yn llwyr.
Mae’r holl gynigion wedi’u dyfeisio gan ddilyn yr egwyddor ganlynol:
*Dylid cadw unrhyw rai o’r cyfyngiadau presennol sydd â diben clir o ran diogelu plant sy’n berfformwyr.*

**Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog**

Wrth roi cyngor a gwneud argymhellion i'r Gweinidog, ystyriwch:

Mae'r cyngor i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n cadarnhau bod yr Asesiad hwn wedi'i gwblhau. Ni chanfuwyd unrhyw wrthdaro gydag erthyglau Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

## Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

**Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share**

Caiff yr Asesiad hwn ei gyhoeddi ar yr un pryd ac ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Caiff yr asesiad hwn o effaith ei adolygu yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori

**Cyllidebau**

| | |
|---|---|
| **O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?**<br>Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | **Nac Oes** |
| **Rhowch unrhyw fanylion:** | |

**Monitro ac Adolygu**

| | |
|---|---|
| **A oes angen inni fonitro / adolygu’r cynnig?** | **Oes** |
| **Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu** | **Tachwedd 2014** |

**Gweler y dudalen nesaf am Restr Gryno o erthyglau’r CCUHP**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:
**www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc:
**www.cliconline.co.uk/cym/newyddion**

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:
**http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents**

WG16876

### Erthygl 1
Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

### Erthygl 2
Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

### Erthygl 3
Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

### Erthygl 4
Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

### Erthygl 5
Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

### Erthygl 6
Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

### Erthygl 7
Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

### Erthygl 8
Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

### Erthygl 9
Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

### Erthygl 10
Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddod at ei gilydd fel teulu.

### Erthygl 11
Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

### Erthygl 12
Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

### Erthygl 13
Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

### Erthygl 14
Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

### Erthygl 15
Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

### Erthygl 16
Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

### Erthygl 17
Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

### Erthygl 18
Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

### Erthygl 19
Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.

### Erthygl 20
Rhaid i bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

### Erthygl 21
Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

### Erthygl 22
Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

### Erthygl 23
Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

### Erthygl 24
Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

### Erthygl 25
Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

### Erthygl 26
Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

### Erthygl 27
Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

### Erthygl 28
Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

### Erthygl 29
Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

### Erthygl 30
Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

### Erthygl 31
Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

### Erthygl 32
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

### Erthygl 33
Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

### Erthygl 34
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

### Erthygl 35
Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

### Erthygl 36
Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

### Erthygl 37
Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

### Erthygl 38
Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

### Erthygl 39
Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

### Erthygl 40
Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfrydau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

### Erthygl 41
Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

### Erthygl 42
Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.